OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1158

# Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005

## RHAN 2

Masnach Ryng-Gymunedol

**Masnachwyr**

**8.**—(1) Rhaid i fasnachwyr gwartheg, moch, defaid neu eifr, sy'n ymgymryd â masnach ryng-Gymunedol, gydymffurfio â Rhan III o Atodlen 3.

(2) Rhaid i fasnachwyr anifeiliaid eraill sy'n ymgymryd â masnach ryng-Gymunedol, os bydd hysbysiad a gyflwynir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny, gofrestru fel y cyfryw gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a rhaid iddynt roi'r ymrwymiadau ynglyn â chydymffurfio â'r Rheoliadau hyn a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gadw cofrestr o fasnachwyr sydd wedi'u cofrestru o dan baragraff (2).

(4) Rhaid i unrhyw berson sydd wedi cofrestru o dan baragraff (2) gadw cofnod —

(a) o bob cyflenwad anifeiliaid; a

(b) pan fo llwyth wedi'i rannu neu wedi'i farchnata ar ôl hynny, o gyrchfan ddilynol yr anifeiliaid,

a rhaid iddo gadw'r cofnodion hynny am 12 mis o'r dyddiad y cyrhaeddodd y llwyth.